



Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

E-fwletin

Hydref 2022

**Diogelu lles meddwl y genhedlaeth
bresennol a chenedlaethau'r dyfodol**



Croeso

Croeso i rhifyn mis Hydref o'r e-fwletin.

Mae lles meddwl yn ymwneud â'n gallu i deimlo'n hyderus gyda ni ein hunain, datblygu a chynnal perthnasoedd cefnogol gyda'n teuluoedd, ein ffrindiau a'n cymunedau, cael teimlad o ddiben, byw a gweithio'n gynhyrchiol, ymdopi â straen dyddiol ac addasu'n gadarnhaol i newid.

Mae'r e-fwletin yma'n cynnwys erthyglau sydd yn edrych ar fentrau, rhaglenni neu newidiadau polisi cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, sydd yn annog ac yn hybu lles meddwl da trwy gydol cwrs bywyd.

Penawdau

3

Ar y Grawnwin

9

Fideos

11

List of PHNC Topics

13

Rhifyn Nesaf

14

Bysell

Ymchwil



Polisi



Ymarfer



Sylwebaeth



Byddem wrth ein bodd yn clywed am unrhyw wybodaeth ychwanegol, astudiaethau achos neu awgrymiadau i'w rhannu gyda'r gymuned iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru mewn e-fwletinau yn y dyfodol ac ar ein gwefan felly cysylltwch.

Cysylltu â Ni

Drwy anfon e-bost:
publichealth.network@wales.nhs.uk

Write to us
Public Health Network Cymru,
Public Health Wales, Floor 5,
Number 2 Capital Quarter,
Tyndall Street, Cardiff, CF10 4BZ

Tweet us
[@RICCymru](https://twitter.com/RICCymru)



Penawdau

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – Gweminarau Diweddar ar Les Meddwl

Public Health Network Cymru



Mae Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal nifer o weminarau dros y misoedd diwethaf sydd yn arddangos y gwaith sydd yn digwydd yng Nghymru i hybu lles meddwl da. Mae'r recordiadau byw ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

Diogelu lles meddwl cenedlaethau'r dyfodol

Mae lles meddwl plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i lawer o sefydliadau yng Nghymru. Bydd y weminar hon o gymorth i chi ganfod yr hyn yr ydym yn ei wybod hyd yn hyn am effaith COVID-19 a'r rhaglen "Ymagwedd Ysgol Gyfan" y mae ysgolion yng Nghymru'n ei rhoi ar waith i hyrwyddo lles meddwl ac emosiynol.

Gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer llesiant meddyliol ar draws polisïau a gwasanaethau gan ddefnyddio Asesiad o'r Effaith ar Les Meddyliol

Roedd y dosbarth meistr hwn yn canolbwyntio ar y broses o Asesu'r Effaith ar Les Meddyliol (MWIA), beth ydyw, a sut y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo a diogelu lles meddwl ac ysgogi Iechyd Meddwl a Lles ym mhob dull Polisi. Roedd y gweminar yn cynnwys astudiaethau achos o MWIAs ac yn rhoi cyfleoedd i'r cyfranogwyr ofyn cwestiynau, trafod y dull gweithredu a chyfrannu at gynlluniau ar gyfer datblygu MWIA yn y dyfodol.

Deall y dylanwadau ar les meddwl ar lefel unigol a chymunedol

Mae lles meddwl yn hanfodol i iechyd a lles. Nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw lansio rhaglen waith newydd, Hapus, sy'n ymwneud yn rhannol â chael sgwrs genedlaethol i annog pobl yng Nghymru i ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw a'u lles meddwl ac i wneud amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu. Gallwch ganfod mwy trwy edrych ar y weminar.



Dod o hyd i'ch llais - Arloesi ar lawr gwlad

Gan Katie Hadley, Arweinydd Tîm yn Little Lounge CIO



Mae'r elusen fach o'r Cymoedd, 'Little Lounge', mewn partneriaeth â Maggie's Voice Equestrian Center a Voyage of Hope Therapy Services, yn lansio menter arloesol i gefnogi teuluoedd.

Mae dyddiau Mercher wedi dod yn ddiwrnodau "Dod o hyd i'ch Llais"!

Wedi'i leoli yn Maggie's Voice Equestrian Center ger Pontypridd, mae'r prosiect cymorth teuluol therapiwtig hwn yn un o'n mentrau mwyaf cyffrous ar gyfer 2022!

Mae angen cymorth ychwanegol ar lawer o deuluoedd lleol ar gyfer plant sy'n cael trafferth gydag ymddygiad heriol; eto i gyd, nid oes gan ysgolion ddigon o adnoddau, maen nhw o dan gormod o bwysau a gall amseroedd aros i'r rhai sydd angen diagnosis swyddogol fod yn flynyddoedd - Gall hyn adael rhieni'n teimlo'n anobeithiol ac wedi'u llethu.

Y syniad

Mae Elinor Brewer, perchennog a gweledydd 'Maggie's Voice' wedi creu amgylchedd meithringar, dan arweiniad cleientiaid, gyda'i phrofiad a'i hangerdd am alluoedd therapiwtig cheffylau. Ynghyd â chefnogaeth ac arbenigedd Louise Worrall o Voyage of Hope Therapy Services, dechreuon ni drafodaethau cyffrous am sut y gallem bartneru er budd teuluoedd mewn angen. Cysyllton ni â'r 1910 Trust a Bute Energy a chynnig syniad i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol i ddarparu sesiynau therapiwtig ar ffermydd gyda cheffylau i blant sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag ysgol prif ffrwd. Mae cheffylau yn adlewyrchwyr emosiynol anhygoel, maen nhw'n ein helpu ni i ddeall iaith ein corff, ein lefelau egni a sut mae ein cyfathrebu'n effeithio ar y byd o'n cwmpas. Mae gweithio'n therapiwtig gyda cheffylau hefyd yn rhoi hwb i hunan-barch a hyder gan fod y person wedi'i rymuso i gymryd gofal a darparu ar gyfer

creadur byw arall; mae plant sy'n aml yn teimlo nad ydynt yn 'ffitio' neu'n methu 'cyflawni' yn yr un modd ag y mae eu cyd-ddisgyblion yn blodeuo yn yr amgylchedd naturiol hwn, i ffwrdd o ffurfioldeb lleoliad dosbarth.

Cefnogi rhieni

Yn Little Lounge rydym yn credu'n gryf mai un o'r ffyrdd gorau i gefnogi lles plant lleol yw cefnogi eu rhieni. Diolch i'n cyllidwyr, nid yn unig y mae'r plant yn elwa o'r prosiect hwn, ond tra bod y plentyn yn gweithio gyda'r cheffylau mae eu rhiant yn cael sesiwn un i un gyda therapydd, i gael cyngor, i gael eu cyfeirio neu ddim ond i gael sgwrs gyda chlust sympathetig.

Diolch i'r Arnold Clark Community Fund, fe wnaethom greu ardal goffi gyfforddus ar y fferm, gyda soffas, oergell llawn stoc, tostiwr a pheiriant coffi a roddwyd gan Tesco Extra Upper Boat. Rydym yn falch iawn o'r dull teuluol cyfannol hwn.



Logo'r prosiect darluniwyd gan Grace Barussi
12 oed

Mae staff Cwricwlwm Amgen Ysgol Uwchradd Pontypridd wedi dweud bod hwn yn ddarpariaeth yr hoffent barhau i'w myfyrwyr; rydym ar ben ein digon o fod wedi bod yn gatalydd wrth greu'r bartneriaeth hon a gobeithiwn y bydd Dod o Hyd i'ch Llais yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar deuluoedd lleol am flynyddoedd i ddod.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am waith Little Lounge, ewch i www.littlelounge.org

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Voyage of Hope Therapy, ewch i www.vohts.co.uk

Arolwg cyhoeddus yng Nghymru yn datgelu effeithiau niweidiol canfyddedig newid hinsawdd ar iechyd meddwl a chostau byw



Mae arolwg cyhoeddus cenedlaethol a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bangor Prifysgol wedi datgelu bod dros dri chwarter o drigolion Cymru yn credu y bydd newid hinsawdd yn niweidio iechyd meddwl ac yn cynyddu costau gwresogi cartref a phrynu bwyd.

Ymhlith pryderon mawr eraill newid hinsawdd mae llai o fynediad at wasanaethau iechyd a gofal, cynnydd yn lledaeniad clefydau heintus, a lefelau uwch o salwch corfforol. Wedi'i gynnal yn 2021/22, cyfwelodd yr arolwg â 2,269 o drigolion ledled Cymru i gasglu barn ar newid hinsawdd ac iechyd.

Mae canfyddiadau allweddol eraill yn cynnwys:

- Roedd 82 y cant o bobl yn weddol bryderus neu'n bryderus iawn am newid hinsawdd
- Mae 61 y cant o'r farn bod newid hinsawdd eisoes yn cael effaith yng Nghymru, gan gynnwys:
 - o Tywydd eithafol
 - o Llifogydd
 - o Erydu arfordirol
- Roedd llawer o bobl yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn ailgylchu (88 y cant) ond roedd llai yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithredoedd eraill sy'n ystyriol o'r hinsawdd fel lleihau'r defnydd o ynni gartref (44 y cant) neu geisio prynu cynnyrch lleol (38 y cant).
- Byddai llawer yn ystyried gwneud mwy o weithredoedd sy'n ystyriol o'r hinsawdd yn y dyfodol, gan gynnwys:
 - o byddai 59 y cant yn defnyddio brandiau/cwmnïau sy'n gwarchod yr amgylchedd (roedd 21 y cant arall bob amser yn gwneud hyn beth bynnag)
 - o byddai 54 y cant yn osgoi defnyddio nwyddau/cynnyrch â pheccynnu diangen (roedd 33 y cant arall bob amser yn gwneud hyn beth bynnag)
 - o byddai 53 y cant yn defnyddio ffynonellau ynni gwyrdd i bweru eu cartref (roedd 20 y cant arall bob amser yn gwneud hyn beth bynnag). Fodd bynnag, roedd rhai opsiynau sy'n ystyriol o'r amgylchedd nad oeddent mor boblogaidd. Er enghraifft, ni fyddai 41 y cant yn barod i osgoi cig neu gynnyrch llaeth neu fwyta llai ohonynt.
- Roedd rhai o'r ysgogwyr pwysicaf a nodwyd ar gyfer annog camau sy'n ystyriol o'r amgylchedd fel a ganlyn: gwybod y byddai camau gweithredu cadarnhaol yn helpu cenedlaethau'r dyfodol, gweld busnesau mawr yn gweithredu a gwybod y byddai ymddygiad sy'n ystyriol o'r hinsawdd yn gwella iechyd.

[Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y Cyhoedd](#)

Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir

Nerys Edmonds, Public Health Wales (nerys.s.edmonds@wales.nhs.uk)



Mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar bob person ifanc yng Nghymru, er bod sut yr effeithiwyd ar lesiant meddyliol pobl ifanc yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, yn ôl Asesiad newydd o'r Effaith ar Lesiant Meddyliol (MWIA) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at dystiolaeth gref bod blociau adeiladu allweddol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant da, gan gynnwys teulu a pherthnasoedd cymdeithasol, addysg, diogelwch economaidd, mynediad at wasanaethau, cyfranogiad mewn gweithgareddau grŵp, teimlo'n ddiogel ac mewn rheolaeth i gyd wedi'u heffeithio yn ystod y pandemig.

Canfu'r adroddiad dystiolaeth gref hefyd fod cau ysgolion wedi cael effaith negyddol ar les meddwl pobl ifanc, er bod rhai pobl ifanc wedi troi'n ddysgwyr mwy annibynnol ac wedi datblygu sgiliau digidol cryfach.

Mae'r adroddiad manwl yn nodi cyfres o ffactorau a helpodd i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys, perthnasoedd agos â rhieni, cael tai diogel gyda lle i astudio a bod yn yr awyr agored, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, cadw'n gorfforol egniol, cynnal trefn a strwythur i'r dydd, ceisio cymorth pan fo angen, dysgu sgiliau newydd, gweithgareddau hamdden a chreadigol.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu bod dysgu o effeithiau pandemig COVID-19 yn bwysig nid yn unig ar gyfer cynllunio ar gyfer pandemig yn y dyfodol, ond hefyd i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng costau byw. Mae'r adroddiad yn amlygu rhai ffactorau tymor hwy sy'n debygol o ddylanwadu ar les meddwl pobl ifanc yn cynnwys:

- Anghydraddoldebau mewn cyflogaeth ac incwm teuluol, cyrhaeddiad addysgol, mynediad at waith teg a sicrwydd economaidd i bobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion..
- Newidiadau i amodau gwaith rhieni, gan gynnwys symudiad cyflym at fwy o rieni yn gweithio o bell.
- Mae tarfu ar addysg yn cael ei amlygu fel risg newydd yn yr asesiad risg newid hinsawdd diweddaraf ar gyfer y DU (Kovats a Brisley 2021), sy'n golygu bod buddsoddi, cyd-ddylunio a gwerthuso modelau addysg sy'n gydnerth yn yr hirdymor yn bwysig.
- Mae gan y twf cyflym yn nefnydd a dylanwad technoleg ddigidol, cyfathrebu ar-lein, llwyfannau hapchwarae a chyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i bandemig COVID-19 oblygiadau i les meddyliol pobl ifanc.

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod mae angen dull trawslywodraethol a chymdeithas gyfan ac mae gan bobl ifanc, teuluoedd, cyflogwyr, cymunedau ac ysgolion yn ogystal ag iechyd a gofal cymdeithasol i gyd rôl bwysig i'w chwarae yn yr adferiad o'r pandemig a diogelu iechyd meddwl yn yr hirdymor

Mae meysydd ar gyfer gweithredu a nodwyd o'r asesiad yn cynnwys:

- Gwranddo ar bobl ifanc a sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn llywio mesurau polisi ac adfer.
- Mynd i'r afael ag effeithiau ac anghydraddoldebau hirdymor mewn iechyd meddwl a llesiant
- Lliniaru'r effeithiau negyddol a nodwyd ar y ffactorau amddiffynnol ar gyfer llesiant meddyliol
- Cynyddu'r pwyslais ar iechyd meddwl a llesiant mewn addysg
- Cefnogi rhieni a pherthnasoedd teuluol
- Cyfathrebu a darparu gwybodaeth
- Defnyddio offer digidol a chysylltedd rhyngrwyd a chael mynediad at hyn
- Gwella mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant
- Cymunedau, tai a'r amgylchedd adeiledig a naturiol
- Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar effaith mesurau diogelu iechyd ar lesiant meddyliol

[Gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn a'r ffeithluniau yma.](#)

The Grapevine

Datblygu gallu a hyfforddiant yn ymwneud â newid hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn fygythiad sylweddol i iechyd ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd i roi cyfeiriad strategol a chydlyniant ar yr agenda newid hinsawdd. Mae'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd yn datblygu dull o hyfforddi a meithrin gallu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn cynorthwyo staff i ddeall yr hyn y mae newid hinsawdd yn ei olygu i'n sefydliad a'r hyn y mae angen i ni ei wneud mewn ymateb i hynny. Mae hyn yn cynnwys datblygu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a dysgu i gydweithwyr yn amrywio o gyrsiau e-ddysgu byr i sesiynau hanner diwrnod; bydd y cynnig yn seiliedig ar yr anghenion a nodir. Rydym ar hyn o bryd yn nodi unigolion a thimau fyddai â diddordeb yn y cyfleoedd hyn; felly os hoffech fwy o wybodaeth neu os ydych eisiau trefnu trafodaeth cysylltwch ag eurgain.powell@wales.nhs.uk (Rheolwr Rhaglen Datblygu Cynaliadwy i'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae'r cynnig hwn ond ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ond rydym yn gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill er mwyn cydweithredu a chydlynu cyfleoedd hyfforddiant ar draws y sector iechyd yng Nghymru.

Gall sectorau eraill gael mynediad at gymorth tebyg:

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu hyfforddiant arweinyddiaeth hinsawdd ar gyfer [Llywodraeth Leol](#).

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhoi cymorth i [gyrff cyhoeddus](#).

Bydd Wythnos Hinsawdd Cymru: 21-25 Tachwedd 2022

[Bydd Wythnos Hinsawdd Cymru 2022](#) yn canolbwyntio ar y penderfyniadau hinsawdd a'r cyfraniad pwysig y gall y cyhoedd eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd digwyddiad eleni yn ffurfio rhan bwysig o'r ymgynghoriad ar y strategaeth genedlaethol newydd a fydd yn sefydlu'r egwyddorion arweiniol ynghylch sut all y llywodraeth, busnesau a'r cyhoedd gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Bydd yr wythnos ei hun yn cynnwys cynhadledd rithiol (21-23 Tachwedd) a rhaglen o ddigwyddiadau ymylol yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru a hyd at 14 Rhagfyr yn unol â chyfnod ymgynghori'r Strategaeth.

Siarter Teithio Llesol Gwent



Ynghyd â nifer o sefydliadau blaenllaw Sector Cyhoeddus Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) wedi ymuno â Siarter Teithio Llesol Gwent. Rydym wedi ymrwmo i weithredu i helpu staff i deithio'n fwy cynaliadwy. Ein gobaith yw y bydd ein gweithredoedd yn annog gwelliant mewn iechyd, yn lleihau llygredd aer ac yn torri allyriadau carbon.




Er mwyn annog teithio gwyrdd, rydym wedi gosod cysgodfannau beiciau ar safle sawl un o'n hysbytai fel mannau diogel i gadw beiciau, gan leddfu unrhyw bryderon ynghylch beiciau'n cael eu dwyn. Mae hyrwyddo'r ap rhannu ceir, 'Liftshare' wedi cael ei roi ar waith ac mae'n parhau i ddatblygu gyda chyfraddau aelodaeth yn cynyddu, sydd yn ffordd gefnogol i staff rannu costau cymudo. Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi cael eu gosod ar safleoedd hefyd i gefnogi'r cynnydd yn y defnydd o gerbydau trydan gan staff ac ymwelwyr.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cyfeirio at lwybrau trafndiaeth sydd ar gael, yn cefnogi cynlluniau trafndiaeth gymunedol ac wedi datblygu mapiau llwybr cerdded i annog cerdded am ei fuddion lles. Rydym yn gweithio gydag adrannau i sicrhau bod gwastraff ynni'n lleihau trwy ddefnyddio arferion mwy effeithlon a gwneud y gorau o'r safle gyda'r bwriad o annog mannau posibl i staff perthnasol weithio'n ystwyth.

Cysylltwch â sarah.pope@wales.nhs.uk am fwy o wybodaeth.

Fideos



Gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer llesiant meddyliol ar draws polisiau a gwasanaethau gan ddefnyddio Asesiad o'r Effaith ar Lesiant Meddyliol

Roedd y dosbarth meistr hwn yn canolbwyntio ar y broses o Asesu'r Effaith ar Les Meddyliol (MWIA), beth ydyw, a sut y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo a diogelu lles meddwl ac ysgogi Iechyd Meddwl a Lles ym mhob dull Polisi.

[Watch](#)



Meddwl trwy systemau ac iechyd y cyhoedd: cyflwyniad


Rhoddodd y weminar hon, a gyflwynwyd gan Jenneth Parker o Sefydliad Schumacher, gyflwyniad hygyrch i weithredu trwy systemau a sut gall hyn ein helpu ni i ganfod ein ffordd mewn byd cymhleth – gyda phwyslais penodol ar systemau iechyd y cyhoedd a'r ffordd y maent yn dod o fewn, ac yn dylanwadu ar, systemau cymdeithasol a bioffisegol ehangach.

[Watch](#)

[See all videos](#)

Newyddion Diweddaraf

See all news



10-11-2022

[Mae pedwar deg y cant o ardaloedd cyngorau mewn perygl o orfod cau canolfannau hamdden a phyllau nofio cyn Ebrill heb gymorth ar unwaith](#)



08-11-2022

[Ymchwil newydd yn dangos y gallai terfyn cyflymder 20mya arbed £100 miliwn i Gymru yn y flwyddyn gyntaf](#)



27-10-2022

[Mae harneisio cefnogaeth gan gymheiriaid yn allweddol i leihau digartrefedd ymhlith pobl sy'n gadael gofal](#)



27-10-2022

[WHO yn amlygu cost uchel anweithgarwch corfforol yn yr adroddiad byd-eang cyntaf erioed](#)



25-10-2022

[Rhoi lle canolog i leisiau cymunedol er mwyn hybu bywydau cenedlaethau'r dyfodol](#)



25-10-2022


[Amddiffynnwch eich plentyn yn erbyn risg polio](#)

Digwyddiadau



23-11-2022, 14:00-15:30

[GWEMINAR: Dosbarth Meistr – Masnach ac Iechyd Rhyngwladol](#)



09-02-2023, 09:30-12:30

[Cynllunio ar gyfer dyfodol iach: cydweithio i greu cymunedau iachach](#)

Topics

[See all topics](#)

- A** Accidents and injury prevention
Adverse Childhood Experiences
Air Quality
Alcohol and substance use and misuse
Approaches and methods in public health practice
Arts and health
- B** Behaviour change
Biodiversity and greenspace
Built environment
Cancers
Cardiovascular conditions
Carers
Children and young people
Climate change
Communicable diseases
Community
Community assets
COVID-19
- D** Debt and benefits
Diabetes
Diet and nutrition

Early Years
Education and training
Employment
Environment
Ethnicity
Evaluation
- F** Foodborne communicable diseases
Fuel Poverty
Further, higher and tertiary education
- G** Good, fair work
- H** Health in all policies
Health inequalities
Health related behaviours
Homelessness
Housing
Housing quality
Human rights and social justice
- I** Income and resources
Influenza
- L** Learning difficulties
LGBTQ+
- M** Maternal and new born health
Men
Mental health conditions
Mental ill-health
Mental wellbeing
- N** Natural environment
Non-communicable diseases
- O** Offenders
Older adults
Oral health
- P** People
Physical activity
Planning
Poverty
Precarious work
Preschool (including WNHPSS)
Prevention in healthcare
- R** Respiratory conditions
- S** School (Including WNHPSS)
Sexual health
Sexually Transmitted Infections
Smoking and vaping
Social capital
Spirituality
Stress, coping and resilience
Suicide and suicide prevention
Sustainable development
Systems thinking in public health
- T** Transport
- U** Unemployment
- W** Water and sanitation
Wellbeing of Future Generations
Wider determinants of health
Women
Working age adults

Rhifyn Nesaf

Edrych yn ôl ar 2022



2022